OGOF

*Be actually ydi Ogof ta, a be sy'n actually gal ei neud?*

*· Yn bennaf, ryda ni'n wefan sy'n adolygu cerddoriaeth sydd yn ymwneud yn bennaf â cherddoriaeth electronig, clwb & arbrofol.*
*· Da ni'n sgwennu adolygiad pob mis.*
*· Da ni'n curadu rhestr chwarae bob mis.*
*· Da ni'n dewis ein hoff mix bob mis.*
*· Croesawn gwaith mewn unrhyw iaith, tra'n wastad yn annog i'r Gymraeg gael ei ddefnyddio po fwyaf y gallai.*
*· Gallwn ni hefyd gynnig gwaith hyrwyddo i'ch prosiect. Ryda ni ar ganol creu tudalen 'Hyrwyddo taliedig', ble yn y dyfodol y byddwch yn gallu gweld esiamplau o'r math o waith yr ydyn ni'n gallu cynnig i chi. Am ein cyfraddau tâl, ymholiadau & dechreuad y sgwrs, ewch draw i'n tudalen 'Cyswllt/-Contact'.*
*· Da ni hefyd yn barod i gael sgwrs! Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, cwestiynnau neu syniadau fysa chi'n hoffi ei rannu, ewch draw i'r dudalen yma.*

*Polisi drws:*

***Drwy bori drwy gynnwys Ogof-aidd, fe wnewch hynny ar y sail eich bod chi'n cytuno & yn cadw i'r telerau polisi isod** -*

*· Mae Ogof i bawb - ni fydd unrhyw agweddau rhagfarnllyd yn seiliedig ar gred, lleoliad, cyfeiria-dedd, oedran, gallu, iaith neu unrhyw nodwedd bersonol arall yn derbyn mynediad. Fe gawn nhw aros tu allan yn y glaw.*
*· Anelir Ogof i fod yn ofod cynhwysfawr, a fod pob ymdrech yn cael ei wneud ar-lein i adlewyrchu'r targed yma, tra'n gweithio yn yr un ysbryd all-lein i wireddu hyn.*
*· Daw pob adolygiad Dewisiad Ogof â'r sêl bendith fod y cerddoriaeth sy'n cael ei adolygu wedi'i cael ei dalu amdano. Gwnewn yr ymdrech fwyaf i sicrhau fod yr arian sy'n cael ei roi yn cyrraedd mor agos at boced yr artist a sy'n bosib.*
*· Oherwydd natur y dudalen 'Hyrwyddo taliedig', ble yr ydym wedi cael ein gofyn i hyrwyddo prosiectau allanol, gallwn ni ddim dweud ein bod ni am dalu am pob cerddoriaeth yn yr achos honno. Foddbynnag, fe wnewn ni sicrhau nad ydi'r artistiaid eu hunain yn colli incwm gan y cwmnïau PR/recordiau label sy'n gofyn i ni gydweithio gyda nhw ar ddigwyddiad/albwm/rhestr chwarae iddyn nhw.*
*· Rydyn ni'n annog holl bobloedd sy'n mwynhau cynnwys Ogof i gefnogi artistiaid pan a phryd y gall hynny ddigwydd. Ewch draw i'r stondin tshirts ia.*

*Ebost: ogof.ogof@outlook.com*
*Twitter: @ogofogof*
*Instagram: @ogofogofogof*

*[Cyhoeddwyd ail fersiwn ar y 2il o Ebrill 2021; fersiwn cyntaf 11 Hydref 2020]*